# Ymchwiliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2016 - adroddiad dilynol y DU 2021

1. Dyma adroddiad dilynol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon (y DU) 2021 i Ymchwiliad 2016 gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (‘y Pwyllgor’). Mae’r adroddiad hwn yn cwmpasu blynyddoedd 2020 a 2021 ac mae’n ymateb i’r argymhellion a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad[1] ar ei ymchwiliad ynghylch y DU, a gynhaliwyd o dan erthygl 6 o’r Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

2. Mae llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, yn rhannu ymrwymiad i gefnogi ac i wella bywydau pobl anabl. Mae’r adroddiad hwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau a gwasanaethau a ddarperir yn genedlaethol gan lywodraeth y DU, ac ar bolisïau sydd wedi eu datganoli sy’n galluogi’r gweinyddiaethau datganoledig i adlewyrchu anghenion penodol eu poblogaethau.

**Argymhelliad 114a**

**Cynnal asesiad effaith cronnol o’r mesurau a fabwysiadwyd ers 2010 y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, sy’n ymwneud â hawliau pobl ag anableddau i fyw’n annibynnol ac i gael eu cynnwys yn y gymuned, eu diogelwch cymdeithasol a chyflogaeth. Dylai’r Wladwriaeth sy’n barti sicrhau bod yr asesiad hwn yn seiliedig ar hawliau, ac yn cynnwys yn ystyrlon bobl ag anableddau a’u sefydliadau cynrychioliadol.**

3. Ers 2010, mae’r llywodraeth wedi cyhoeddi dadansoddiad cronnol o effeithiau ei pholisïau treth, llesiant a gwariant cyhoeddus ar aelwydydd. Cyhoeddwyd yr asesiad diweddaraf yng Nghyllideb 2021. Dangosodd, yn 2021 i 2022, y bydd 60% o’r aelwydydd tlotaf yn cael mwy mewn gwariant cyhoeddus nag y maent yn ei gyfrannu mewn trethi. Ar gyfartaledd, bydd aelwydydd yn y ddengradd incwm isaf yn derbyn mwy na £4 mewn gwariant cyhoeddus am bob £1 y maent yn ei thalu mewn trethi.

4. Y dadansoddiad dosbarthiadol cronnol hwn yw’r un mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael, sy’n cwmpasu effeithiau trosglwyddiadau arian parod uniongyrchol rhwng aelwydydd a’r llywodraeth, yn ogystal ag effeithiau y ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Nid gwariant ar lesiant yw’r unig ffordd o helpu pobl anabl. Mae cymorth ychwanegol, gan gynnwys gwariant ar iechyd, cymorth cyflogaeth, a

[1] Adroddiad y Pwyllgor (Cyfeirnod y Cenhedloedd Unedig CRPD/C/15/4) https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2fC%2f15%2f4&Lang=en

buddsoddiad mewn seilwaith yn alluogwyr pwysig o ran dileu rhwystrau i gyfranogiad.

5. Yn ogystal ag asesiad effaith ansoddol o benderfyniadau'r gyllideb o'u cymharu â'r holl nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010[2], mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn cynnal asesiadau effaith pan mae'n datblygu cymorth cyflogadwyedd, sy'n cynnwys sicrhau bod hawliau pobl anabl yn cael eu cynnal. Hefyd, ceisir yn weithredol brofiadau pobl anabl wrth lywio cymorth cyflogadwyedd, megis llywio'r broses o ddatblygu cymorth i rieni anabl sy'n ddi-waith drwy Parental Employability Support Fund (PESF) a PESF Boost, a thrwy baneli Lived Experience ar gyfer No One Left Behind, sef dull strategol ac integredig newydd o ddarparu cyflogadwyedd lleol yn yr Alban.[3]

6. Mae gan Department for Communities (DfC) yng Ngogledd Iwerddon fframwaith i werthuso'r cyfansawdd diwygio llesiant (Welfare Reform Composite Evaluation Framework) er mwyn mesur effaith gweithredu i ddiwygio llesiant yn yr awdurdodaeth honno ac unrhyw gamau lliniaru sydd wedi eu cyflwyno.

**Argymhelliad 114b**

**Sicrhau bod unrhyw fesur arfaethedig o ddiwygio llesiant yn seiliedig ar hawliau, yn cynnal y model hawliau dynol o anabledd, ac nad yw'n effeithio'n anghymesur nag/neu'n andwyol ar hawliau pobl ag anableddau i fyw'n annibynnol, safon byw ddigonol na chyflogaeth. Er mwyn atal effeithiau andwyol o'r fath, dylai Gwladwriaethau sy'n barti gynnal asesiadau o'r effaith gronnol sy'n seiliedig ar hawliau dynol o'r ystod gyfan o fesurau arfaethedig a fyddai'n effeithio ar hawliau pobl ag anableddau.**

7. Mae gan y DU draddodiad hirsefydlog o sicrhau bod hawliau a rhyddid yn cael eu diogelu'n ddomestig ac o gyflawni ein rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol. Mae fframwaith domestig y DU ar gyfer diogelu a hybu hawliau dynol a mynd i'r afael â gwahaniaethu yn seiliedig i raddau helaeth ar Ddeddf Hawliau Dynol 1998[4] a Deddf Cydraddoldeb 2010, ac amddiffyniadau eraill mewn cyfraith droseddol a sifil.

8. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yng Ngogledd Iwerddon[5] yn allweddol i amddiffyn pobl â phob nodwedd warchodedig, gan gynnwys anabledd. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010[6] yn ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith polisïau ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae'n sicrhau bod materion cydraddoldeb, gan gynnwys hawliau pobl anabl, yn cael eu prif ffrydio i bolisïau a rhaglenni adrannau'r

[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents
[3] https://www.gov.scot/publications/fairer-scotland-disabled-people-employment-action-plan-year-2-progress-report/
[4] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/42/contents
[5] https://www.equalityni.org/ECNI/media/ECNI/Publications/Employers%20and%20Service%20Providers/Public%20Authorities/Public_Sector_Equality_and_Disability_Duties-Short_Guide.pdf
[6] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/part/11/chapter/1

llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill er mwyn atal gwahaniaethu yn erbyn pawb, gan gynnwys pobl anabl.

9. Mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus allu dangos sut y maent wedi ystyried materion cydraddoldeb pan fyddant yn datblygu, yn gweithredu ac yn adolygu polisïau, gwasanaethau a phrosesau. Fe’u hanogir i gasglu data am ddefnyddwyr gwasanaethau er mwyn cynnal dadansoddiad cydraddoldeb a fydd yn llywio penderfyniadau ar bolisïau a’r gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys ymgynghori â grwpiau anabledd pan fo hynny’n berthnasol. Pan fo’r dadansoddiad cydraddoldeb yn nodi effeithiau anghymesur ar bobl anabl, dylai sefydliadau ystyried dewisiadau ar gyfer dileu neu leihau’r tebygolrwydd o ganlyniadau negyddol.

10. Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd llywodraeth y DU bapur gwyrdd[7] ar gymorth iechyd ac anabledd. Mae’n canolbwyntio ar y system lesiant a sut y gall ddiwallu anghenion pobl anabl yn well drwy:

    - wella profiad hawlwyr sy’n defnyddio ein gwasanaethau
    - galluogi pobl i fyw’n annibynnol
    - gwella canlyniadau cyflogaeth

11. Mae’r papur gwyrdd wedi ei lywio gan safbwyntiau pobl anabl, naill ai drwy Sefydliadau Pobl Anabl neu’n uniongyrchol, gan gynnwys eu profiadau gyda’r system fudd-daliadau. Yn rhan o hyn, gwnaethom ofyn am farn ar sut i wella asesiadau yn y tymor byr a’r tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys yr Asesiad Gallu i Weithio ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Chredyd Cynhwysol, yn ogystal â’r asesiad ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol.

12. Mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwnaeth llywodraeth y DU nifer o newidiadau i fudd-dal anabledd y Taliad Annibyniaeth Personol i ddiogelu iechyd hawlwyr a staff ac i flaenoriaethu hawliadau newydd a pharhad dyfarndaliadau cyfredol er mwyn sicrhau bod hawlwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

13. Mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sicrhau bod yr Asesiad Gallu i Weithio yn asesu pobl yn deg ac yn gywir. Dros 5 adolygiad annibynnol, gwnaed mwy na 100 o argymhellion, ac roedd mwyafrif y rhain yn dderbyniol. Mae’r papur gwyrdd yn canolbwyntio ar sut y gallwn wneud gwelliannau ychwanegol i asesiadau, ac yn gofyn am farn ar newidiadau yn y dyfodol.

14. Yn ystod pandemig COVID-19, gwnaeth llywodraeth y DU newidiadau i asesiadau budd-daliadau drwy atal pob asesiad wyneb yn wyneb ar gyfer budd-daliadau salwch ac anabledd yn 2020, a’u hailgyflwyno o fis Ebrill 2021, yn unol â’r canllawiau iechyd cyhoeddus diweddaraf. Trwy gydol y pandemig, rydym wedi parhau i asesu pobl gan ddefnyddio tystiolaeth ar bapur, a gwnaethom gyflwyno asesiadau dros y ffôn a chan ddefnyddio fideo.

[7] https://www.gov.uk/government/consultations/shaping-future-support-the-health-and-disability-green-paper

15. Trwy Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018[8], Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am amrywiaeth o daliadau nawdd cymdeithasol. Yn ystod gaeaf 2020, dechreuodd Llywodraeth yr Alban ddarparu budd-dal newydd, Child Winter Heating Assistance, i helpu teuluoedd plant sydd ag anableddau difrifol i wresogi eu cartrefi.Dechreuodd y Taliad Anabledd Plant yn ystod haf 2021 a bydd y Taliad Anabledd Oedolion yn dechrau yn 2022.

16. Cwblheir Asesiad Effaith Integredig wrth ddatblygu unrhyw bolisïau yn Llywodraeth Cymru. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol.

**Argymhelliad 114c**

**Sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth a/neu fesur polisi arfaethedig yn parchu elfennau craidd yr hawliau a ddadansoddir yn yr adroddiad hwn: bod pobl ag anableddau yn cadw eu hannibyniaeth, eu dewis a'u rheolaeth dros eu man preswylio a chyda phwy y maent yn byw; eu bod yn cael cymorth priodol ac unigol, gan gynnwys drwy gymorth personol, a'u bod yn gallu defnyddio gwasanaethau yn y gymuned ar sail gyfartal ag eraill; bod ganddynt fynediad at gynlluniau nawdd cymdeithasol sy'n sicrhau diogelwch incwm, gan gynnwys mewn cysylltiad â chost ychwanegol anabledd, sy'n gydnaws â safon byw ddigonol, a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn cyfrannu'n llawn mewn cymdeithas; a bod ganddynt fynediad i gyflogaeth yn y farchnad lafur agored, a'u bod yn cael cefnogaeth i wneud hynny, ar sail gyfartal ag eraill.**

17. Yn y DU, mae hawliau pobl anabl o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn cael eu hadlewyrchu i raddau helaeth ac yn cael effaith ar bolisïau a deddfwriaeth ddomestig sydd eisoes yn bodoli. Yn ogystal â hynny, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 ym Mhrydain Fawr a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yng Ngogledd Iwerddon yn diogelu pobl â phob nodwedd warchodedig hefyd, gan gynnwys anabledd, ac yn ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith polisïau ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

**Tai**

18. Mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i wella ymhellach yr amrywiaeth o ddewisiadau tai sydd ar gael i bobl anabl a phobl hŷn, ac mae'n ymgysylltu'n agos â'r sector ac amrywiaeth o randdeiliaid eraill, gan gynnwys pobl anabl ar y mater hwn. Rhennir y cyfrifoldeb dros reoli cynlluniau tai unigol a gynhelir, a chytundeb ynghylch lleoliadau neu atgyfeiriadau unigolion i gynlluniau penodol, rhwng awdurdodau lleol a'r darparwyr eu hunain.

19. Hefyd, gan gydnabod pwysigrwydd cartrefi addas i bobl hŷn a phobl anabl, ymgynghorodd llywodraeth y DU rhwng 8 Medi ac 1 Rhagfyr 2020 ar wahanol

[8] https://www.legislation.gov.uk/cy/asp/2018/9/contents/enacted

ddewisiadau i wella hygyrchedd cartrefi newydd yn Lloegr. Cawsom lawer o ymatebion i'r ymgynghoriad oddi wrth bobl unigol sy'n anabl ac oddi wrth Sefydliadau Pobl Anabl. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a bydd y camau nesaf i wella hygyrchedd cartrefi newydd yn cael eu nodi erbyn diwedd y flwyddyn.

20. Mae llywodraeth y DU yn cefnogi pobl anabl i fwynhau cynhwysiant ac i gyfrannu mewn cymdeithas drwy ddarparu canllawiau statudol diweddaredig a buddsoddiad o £30 miliwn ar gyfer adeiladau presennol i gynyddu'r ddarpariaeth o doiledau Changing Places[9], er mwyn caniatáu i filoedd o bobl y mae ganddynt anghenion cymhleth gael gwell mynediad i fannau cyhoeddus. Mae hyn yn adeiladu ar fuddsoddiad blaenorol y llywodraeth o £4 miliwn a dargedwyd at gynyddu'r ddarpariaeth o doiledau Changing Places yn ysbytai'r GIG ac mewn gwasanaethau traffyrdd.

**Cymorth i bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig**

21. Ar 27 Mawrth 2021, cyhoeddodd llywodraeth y DU gynllun llesiant ac adfer iechyd meddwl[10] sy'n cynnwys £31 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022 yng ngoleuni pandemig COVID-19 i wella'r cymorth yn y gymuned ar gyfer oedolion a phlant awtistig a phobl sydd ag anabledd dysgu. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer gofal seibiant a seibiannau byr gyda'r nod o helpu teuluoedd yn ystod y pandemig.

22. Mae llywodraeth y DU yn cydnabod bod diagnosis amserol o awtistiaeth a'r cymorth cywir yn hanfodol i fyw'n annibynnol. Bydd y £31 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022 hefyd yn cael eu defnyddio i fuddsoddi cyllid ychwanegol i fynd i'r afael ag amseroedd aros hir ar gyfer diagnosisau awtistiaeth i blant a phobl ifanc ac i nodi'n rhagweithiol y rhai sydd mewn perygl o argyfwng, yn ogystal â lleihau amseroedd aros diagnostig i oedolion a gwella cymorth ôl-ddiagnostig.

23. Yn rhan o raglen Hyfforddiant Gorfodol Oliver McGowan mewn Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth[11], rydym yn datblygu ac yn profi pecyn hyfforddi safonol ar gyfer pob un o'r 2.7 miliwn o staff iechyd a gofal cymdeithasol, gyda chefnogaeth buddsoddiad o £1.4 miliwn. Penodwyd darparwyr treialon a phartneriaid gwerthuso yn ystod haf 2020, ac mae pobl â phrofiadau bywyd yn ymwneud yn ystyrlon â'r broses o ddatblygu ac o gyflwyno'r cynnwys.

---

9 https://www.gov.uk/government/news/30-million-investment-to-provide-changing-places-toilets

10 https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-mental-health-and-wellbeing-recovery-action-plan

11 https://www.hee.nhs.uk/our-work/learning-disability/oliver-mcgowan-mandatory-training-learning-disability-autism

24. Mae cynllun cenedlaethol Building the Right Support[12] yn Lloegr yn nodi'r cymorth y dylai pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig ei gael os oes ei angen arnynt, er mwyn iddynt fyw bywyd llawn a gwerth chweil. Er mwyn goruchwylio a chyflymu'r cynnydd, rydym wedi sefydlu bwrdd cyflawni Building the Right Support ar draws y llywodraeth. Mae'n dwyn ynghyd adrannau'r llywodraeth, cyrff hyd braich a phartneriaid eraill, gan gydnabod yr angen i fabwysiadu dull gweithredu ar draws y system i ddatrys rhai o'r rhwystrau hanesyddol i wneud cynnydd ychwanegol o ran sicrhau bod pobl sydd ag anabledd dysgu a phobl awtistig yn cael y cymorth cywir yn y gymuned. Mae'r bwrdd wedi cytuno ar 6 ffrwd waith â blaenoriaeth sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau cylchol a chymhleth hyn.

25. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i wella'r ffordd y mae pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig yn cael eu trin yn ôl y gyfraith ac i'w gwneud yn haws iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r newidiadau arfaethedig ym mhapur gwyn y Ddeddf Iechyd Meddwl[13] a gyhoeddwyd ar 13 Ionawr 2021 yn adlewyrchu hyn.

26. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo'n barhaus i sicrhau bod pobl awtistig a phobl ag anableddau dysgu/deallusol yn byw bywydau iachach, yn mwynhau dewis a rheolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Cefnogir hyn ymhellach drwy gyhoeddi blaenoriaethau Scottish Strategy for Autism 2011 i 2021[14], a blaenoriaethau Keys to Life ar gyfer 2013 i 2023. Ailddatganwyd yr ymrwymiad hwn drwy gyhoeddi Learning/Intellectual Disability and Autism Towards Transformation Plan[15], a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

27. Cyn bo hir, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Cod Ymarfer Statudol ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf y GIG (Cymru) 2006[16]. Nod y cod yw darparu eglurder ynghylch y ddeddfwriaeth bresennol er mwyn cynyddu atebolrwydd byrddau iechyd, awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel y gellir cefnogi pobl awtistig yn fwy effeithiol.

**Diwygio Gofal Cymdeithasol i Oedolion a gofal personol**

28. Cyhoeddodd llywodraeth y DU ei chynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol[17] ym mis Medi 2021. Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £5.4 biliwn ychwanegol yn ystod 3 blynedd, sy'n ein galluogi i ddechrau rhaglen ddiwygio gynhwysfawr ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. Mae hyn yn cynnwys diogelu unigolion gan gynnwys pobl anabl rhag costau anrhagweladwy, a gwelliannau mawr i'r system gofal cymdeithasol ehangach yn Lloegr. Byddwn yn gweithio gyda defnyddwyr gofal, darparwyr a

---

12 https://www.england.nhs.uk/learning-disabilities/natplan/

13 https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-the-mental-health-act

14 https://education.gov.scot/improvement/research/the-scottish-strategy-for-autism-2011/

15 https://www.gov.scot/publications/learning-intellectual-disability-autism-towards-transformation/

16 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/42/contents

17 https://www.gov.uk/government/publications/build-back-better-our-plan-for-health-and-social-care

phartneriaid eraill i gyd-ddatblygu mwy o fanylion am y cynlluniau hyn ac i gyhoeddi rhagor o fanylion mewn papur gwyn er mwyn diwygio yn ddiweddarach eleni.

29. Yn rhan o gynllun hirdymor y GIG (NHS Long Term Plan)[18] yn Lloegr, nod llywodraeth y DU yw ehangu gofal personol drwy fesurau, gan gynnwys cyllidebau iechyd personol a rhagnodi cymdeithasol, ble caiff pobl eu cyfeirio at weithgareddau cymunedol neu wirfoddol lleol gan eu meddygon teulu. Y nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n dewis ymgymryd â chyllidebau iechyd personol ar draws y system iechyd a gofal a helpu rhagor o bobl i elwa ar ofal personol.

30. Yn 2018, ymgynghorodd llywodraeth y DU a GIG Lloegr ar ymestyn yr hawl gyfreithiol i gyllideb iechyd personol[19]. Datgelodd yr ymgynghoriad gefnogaeth gref, gyda bron i 9 o bob 10 ymatebydd yn cefnogi'r cynigion. Yn dilyn yr ymgynghoriad, newidiwyd y gyfraith ym mis Rhagfyr 2019 gan roi'r hawl gyfreithiol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r bobl hynny sy'n derbyn gwasanaethau ôl-ofal gael cyllidebau iechyd personol o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983[20]. Bydd hyn yn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth ystyrlon i bobl dros eu hiechyd a'u gofal eu hunain ac yn gwella canlyniadau llesiant.

31. Bydd creu systemau Gofal Integredig statudol ar gyfer pob rhan o Loegr - drwy greu Byrddau Gofal Integredig a Phartneriaethau Gofal Integredig yn y Bil Iechyd a Gofal a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2021[21] - yn cael effaith gadarnhaol ar bobl anabl, yn enwedig o ran y gallu i ddefnyddio gwasanaethau drwy sicrhau cymorth iechyd a gofal integredig sydd wedi eu cydgynhyrchu er mwyn galluogi pobl i gael bywydau gwell.

32. Cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 7 Medi 2021[22] y byddwn yn gweithio ymhellach gyda rhanddeiliaid allweddol i gydgynhyrchu cynllun cenedlaethol cynhwysfawr er mwyn cefnogi integreiddiad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol fel bod yr holl bobl oedrannus ac anabl yn derbyn gofal gydag urddas.

33. Mae gofal personol a gofal integredig di-dor yn parhau i fod yn egwyddorion allweddol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru a argymhellwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[23] a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[24]. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru

---

18 https://www.longtermplan.nhs.uk/publication/nhs-long-term-plan/

19 https://www.gov.uk/government/consultations/personal-health-budgets-and-integrated-personal-budgets-extending-legal-rights

20 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1983/20/contents

21 https://www.gov.uk/government/news/health-and-care-bill-introduced-to-parliament?utm_medium=email&utm_campaign=govuk-notifications&utm_source=27045589-baa2-4f45-87fb-06a2229a5b45&utm_content=immediately

22 https://www.gov.uk/government/publications/build-back-better-our-plan-for-health-and-social-care

23 https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents

24 https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents

yn ystyried ymatebion i'w hymgynghoriad papur gwyn diweddar, sef 'Ail-gydbwyso gofal a chymorth'[25]. Er mwyn cefnogi llais a rheolaeth a gofal di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae hefyd wedi ymrwymo i wneud gwelliannau i'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus y GIG a thaliadau uniongyrchol.

**Cymorth Cyflogaeth**

34. Er mwyn helpu cyflogwyr i reoli rhai o ganlyniadau gwaith tymor hwy pandemig COVID-19, mae llywodraeth y DU wedi gofyn i'r Tasglu Gweithio Hyblyg, a gydgadeirir gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, ymchwilio i sut mae gwaith yn debygol o newid ar ôl y pandemig. Gall y tasglu gymryd y profiad o waith yn ystod y pandemig i helpu gweithwyr cymorth, gan gynnwys y rhai ag anableddau, a chyflogwyr i addasu i ffyrdd newydd o weithio'n fwy parhaol. Mae aelodaeth y tasglu yn cynnwys sefydliad i gynrychioli pobl anabl.

35. Mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i annog gweithio hyblyg ymhellach ac mae'n ymgynghori ar ei wneud yn ddiofyn oni bai bod gan gyflogwyr resymau da dros beidio â gwneud hynny. Bydd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn lansio ymgynghoriad ar hyn maes o law.

36. Nod llywodraeth y DU yw gweld miliwn yn fwy o bobl anabl mewn cyflogaeth rhwng 2017 a 2027, fel y nodir yn Gwella Bywydau: Dyfodol Gwaith, Iechyd ac Anabledd[26] (cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017). Yn ystod y 3 blynedd gyntaf ers cyhoeddi'r dyhead hwn, bu cynnydd o 800,000 yn nifer y bobl anabl mewn cyflogaeth, gan wneud cyfanswm y bobl anabl mewn cyflogaeth yn 4.4 miliwn. Mae'r llywodraeth yn fodlon â'r cynnydd hwn ond mae'n dymuno gwneud mwy er mwyn gweld gwelliannau ychwanegol.

37. Mae llywodraeth y DU yn cydgysylltu rhaglenni i ddarparu cymorth cyflogaeth ac iechyd sy'n fwy personol ac addasedig er mwyn cynyddu cyflogaeth i bobl anabl.

38. Cymorth addasedig drwy'r Pecyn Cymorth Personol, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2017, sy'n helpu pobl anabl neu bobl â chyflwr iechyd i baratoi ar gyfer cyflogaeth, i ddod o hyd i gyflogaeth ac i'w chael hi. Roedd cyfyngiadau symud COVID-19 yn golygu bod angen newidiadau sylweddol i'r ddarpariaeth weithredol mewn Canolfannau Gwaith, megis newid o gyfweliadau wyneb yn wyneb i gyfweliadau rhithwir.

39. Mae'r rhaglen Gwaith ac Iechyd yng Nghymru a Lloegr yn cynnig mynediad gwirfoddol at gymorth cyflogaeth i oddeutu 220,000 o bobl anabl. Mae'r ystadegau diweddaraf (Tachwedd 2020) yn dangos bod 130,000 o bobl wedi dechrau'r rhaglen, gyda 41,000 ohonynt yn dechrau gweithio a 21,000 o ganlyniadau swyddi, mae gan 74% o'r holl bobl sy'n dechrau ar y rhaglen anabledd.

---

25
https://llyw.cymru/gwella-trefniadau-gofal-cymdeithasol-gwaith-partneriaeth

26 https://www.gov.uk/government/publications/improving-lives-the-future-of-work-health-and-disability

40. Ers diwedd 2019, buddsoddwyd dros £40 miliwn mewn Rhaglen Cymorth Cyflogaeth Dwys Personol newydd. Dros 4 blynedd, bydd hyn yn cefnogi 10,000 o bobl anabl, sydd o leiaf flwyddyn i ffwrdd oddi wrth ddechrau gweithio.

41. Yn rhan o strategaeth y Llywodraeth i gefnogi pobl yr effeithir arnynt gan bandemig COVID-19, gwnaed newidiadau dros dro i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Daeth Rheoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Dros Dro) (Coronafeirws) 2020 i rym ar 13 Mawrth 2020 a byddant yn dod i ben ar 12 Tachwedd 2021.

42. Bydd pawb sy'n gwneud cais newydd am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ac yr effeithiwyd arno gan COVID-19 (p'un a yw ef neu blentyn y mae'n gofalu amdano wedi ei heintio neu wedi cael cyngor i aros gartref ac i hunanynysu) yn cael ei drin fel rhywun sydd â gallu cyfyngedig i weithio o ddiwrnod cyntaf ei ddyfarndal. Ni fydd yn ofynnol iddo ddarparu tystiolaeth feddygol na chael asesiad gallu i weithio. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n agored iawn i niwed yn glinigol nad ydynt yn gallu gweithio gartref ac sydd wedi cael cyngor i 'warchod' yn unol â'u cyngor iechyd cyhoeddus perthnasol (mae cyngor iechyd cyhoeddus wedi ei ddatganoli ym Mhrydain Fawr).

43. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban A Fairer Scotland for Disabled People: employment action plan[27], a ddatblygwyd gyda phobl anabl a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'n ymrwymo i haneru bwlch cyflogaeth anabledd yr Alban o leiaf, erbyn 2038. O ganlyniad i hynny, mae Llywodraeth yr Alban yn parhau i fuddsoddi yn ei gwasanaethau cyflogadwyedd, gan gynnwys mwy na £27 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022 yng ngwasanaeth cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol Fair Start Scotland (FSS), a £12.35 miliwn ar gyfer Parental Employability Support Fund (PESF) a PESF Boost yn ystod yr un cyfnod.

44. Mae gwasanaeth cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol FSS Llywodraeth yr Alban yn darparu cymorth cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur. Yn ystod y 3 blynedd ers ei lansio ym mis Ebrill 2018, mae FSS wedi cefnogi dros 32,500 o gyfranogwyr, gan gynnwys mwy na 14,000 o bobl ag anableddau (43% o'r holl gyfranogwyr). Mae'r ddarpariaeth FSS wedi ei hymestyn am 2 flynedd arall hyd at fis Mawrth 2023 a bydd darparwyr gwasanaethau yn gweithio gyda Sefydliadau Pobl Anabl lleol a chenedlaethol i wella'n barhaol y cymorth a gynigir yn ystod y cyfnod hwnnw.

45. Strategaeth Llywodraeth yr Alban ynghyd â llywodraethau lleol yw No One Left Behind.[28] Mae'n rhoi pobl wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyflogadwyedd, yn hybu dull partneriaeth cryfach ble mae meysydd y llywodraeth yn cydweithredu'n fwy â'r trydydd sector a'r sector preifat i nodi anghenion lleol a gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cefnogi unigolion ac anghenion y farchnad lafur. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym y cymorth cywir ar waith i bobl sy'n gwneud eu camau cyntaf, ac i bobl anabl a grwpiau cydraddoldeb eraill sy'n profi anfantais, yn y farchnad lafur.

---

[27] https://www.gov.scot/publications/fairer-scotland-disabled-people-employment-action-plan/
[28] https://www.gov.scot/publications/no-one-left-behind-delivery-plan/

**Mynediad at Waith**

46. Mae Mynediad at Waith (AtW) yn rhoi cyngor a chymorth ymarferol i gyflogeion a'u cyflogwyr er mwyn goresgyn rhwystrau yn y gweithle sy'n gysylltiedig ag anabledd. Nid yw AtW yn disodli dyletswydd cyflogwr i gynnig addasiadau rhesymol, dim ond cymorth y tu hwnt i addasiadau rhesymol y mae'r cynllun yn eu cyllido.

47. Gall cwsmeriaid AtW dderbyn dyfarndal o hyd at £62,900 y flwyddyn bellach i'w cefnogi i gael cyflogaeth neu i'w chadw, ac i gael mynediad at Wasanaeth cymorth iechyd meddwl arbenigol hefyd. Ym mlwyddyn ariannol 2019 i 2020, cefnogodd AtW 43,400 o bobl, y nifer uchaf eto, sy'n gynnydd o 20% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Ym mlwyddyn ariannol 2019 i 2020, cynyddwyd gwariant AtW i £141.7 miliwn, sy'n gynnydd o 8% mewn termau real o'i gymharu â'r flwyddyn dreth flaenorol.

48. Mae AtW wedi cyflwyno cynnig mwy hyblyg newydd er mwyn cefnogi pobl anabl i symud i gyflogaeth, gan ei chadw, yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r cynnig cyfunol newydd yn ategu'r cymorth a ddarperir gan gyflogwyr ac mae'n cynnwys cymysgedd hyblyg o gymorth y gellir ei addasu i ddiwallu anghenion trefniadau gweithio newydd COVID-19. Mae'r cynnig yn cynnwys:
    * cymorth i weithio o fwy nag un lleoliad,
    * pecyn cymorth gweithio gartref y gellir ei gyfuno â chymorth yn y gweithle,
    * cymorth llesiant iechyd meddwl i bobl sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o ffyrlo neu warchod,
    * cymorth teithio i'r gwaith i'r rhai nad ydynt bellach yn gallu teithio'n ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus oherwydd natur eu hanabledd
    * blaenoriaethu ceisiadau AtW oddi wrth bobl anabl yn y grŵp sy'n agored iawn i niwed yn glinigol

49. Yn 2019, sefydlodd Llywodraeth yr Alban Scottish Access to Work Stakeholder Forum (ymrwymiad yn A Fairer Scotland for Disabled People: Employment Action plan), sy'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid eraill, gan gynnwys Sefydliadau Pobl Anabl, er mwyn sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth swyddogaeth yn y broses o lywio'r ddarpariaeth AtW yn yr Alban. Bydd y grŵp yn cynghori'r Adran Gwaith a Phensiynau ar sut y gellir rhoi cyhoeddusrwydd gwell i AtW yn yr Alban, a'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth gael mynediad at y rhaglen.

**Mynediad i Fywyd Cyhoeddus**

50. Ym mis Medi 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru fframwaith newydd ar gyfer pobl anabl; 'Gweithredu ar Anabledd: hawl i fyw'n annibynnol'[29]. Crëwyd hyn yn dilyn ymgysylltiad helaeth â phobl anabl a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli nhw. Mae'n nodi'r egwyddorion, y cyd-destun cyfreithiol a'r ymrwymiadau a fydd yn tanategu holl waith y Llywodraeth gyda phobl anabl, ac ar eu cyfer nhw.

[29] https://llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol-fframwaith-chynllun-gweithredu

51. Ym mis Mehefin 2020, comisiynwyd ymchwil i ganfod graddau effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID-19 ar bobl anabl. Roedd yr adroddiad a ddeilliodd o hynny, a gydgynhyrchwyd â phobl anabl, yn nodi 70 o argymhellion. Cynigir sefydlu tasglu hawliau anabledd i ystyried y camau a gymerir wrth lywio'r gwaith o adnewyddu'r fframwaith a'r cynllun gweithredu.

52. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol drwy ymgeisio am swydd etholedig.

53. Ar 25 Medi 2020, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig[30] peilot yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer etholiadau Senedd 2021 ac etholiadau llywodraeth leol 2022. Dilynwyd hyn ar 11 Tachwedd 2020 drwy lansio ymgynghoriad a oedd yn gofyn am farn ar faterion penodol yn ymwneud â'r gronfa. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 20 Ionawr 2021 a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 16 Chwefror. Roedd y gronfa yn cefnogi ymgeiswyr a oedd yn sefyll yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.

54. Er mwyn galluogi'r gronfa hon i weithredu, gwnaed Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020[31]. Effaith y gorchymyn yw eithrio costau anabledd o'r terfyn uchaf statudol ar gyfer gwariant etholiadol er mwyn sicrhau mwy o degwch i bob ymgeisydd etholiadol.

55. Cafodd Deddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016[32] ei deddfu ym mis Mai 2016 a dechreuodd y cam cyntaf ar 1 Hydref 2019. Y brif ddarpariaeth yn y cam cyntaf oedd cyflwyno fframwaith statudol ar gyfer colli rhyddid, gan sicrhau bod hawliau person yn cael eu diogelu. Pan fydd wedi dechrau'n llawn, bydd y ddeddf yn darparu un fframwaith statudol ar gyfer galluedd meddyliol ac iechyd meddwl.

**Argymhelliad 114d**

**Sicrhau bod cyllidebau cyhoeddus yn ystyried hawliau pobl ag anableddau; bod digon o ddyraniadau cyllideb ar gael i dalu am gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â byw gydag anabledd, a bod mesurau lliniaru priodol, gyda dyraniadau cyllideb priodol ar waith ar gyfer pobl ag anableddau yr effeithir arnynt gan fesurau cyni.**

56. Ers ein hymateb diwethaf yn 2019, mae llywodraeth y DU wedi eithrio budd-daliadau pobl anabl o'r budd-daliadau a rewir a'u codi yn unol â chwyddiant. Bydd y llywodraeth yn gwario dros £57 biliwn ar fudd-daliadau i gefnogi pobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022; oddeutu 2.6% o'r cynnyrch domestig gros yw hyn. Mewn termau real, rhagwelir y bydd cyfanswm y gwariant ar fudd-daliadau anabledd ym mlwyddyn ariannol 2025 i 2026 dros £16

---

[30] https://www.gov.uk/access-to-elected-office-fund
[31] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/1320/contents/made
[32] https://www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/18/contents/enacted

biliwn yn uwch o’i gymharu â 2010, er bod gwariant ar anabledd yn yr Alban wedi ei ddatganoli ym mlwyddyn ariannol 2020 i 2021.

**Motability**

57. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i weithio’n agos gyda Motability, yr elusen annibynnol sy’n galluogi pobl anabl gymwys i lesio car newydd, sgwter neu gadair olwyn fodur drwy ddefnyddio elfen o’u budd-daliadau anabledd, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn darparu’r cymorth gorau posibl i bobl anabl.

58. Cyhoeddodd y llywodraeth ei hymateb i adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Gynllun Motability ym mis Medi 2020. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cynghori ar Nawdd Cymdeithasol adroddiad ar Gynllun Motability hefyd ym mis Tachwedd 2020 o dan y teitl The use of public funds in supporting the mobility needs of disabled people[33]. Mae’r adroddiad hwn yn ystyried ai’r cymorth presennol drwy Gynllun Motability, ynghyd ag argaeledd y Lwfans Byw i’r Anabl ac elfennau symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol, yw’r ffordd orau o gefnogi anghenion symudedd pobl anabl. Mae’r llywodraeth wedi derbyn ei argymhellion a bydd yn ymateb maes o law.

**Papur gwyn y Ddeddf Iechyd Meddwl**

59. Mae llywodraeth y DU wedi ymgynghori, drwy bapur gwyn y Ddeddf Iechyd Meddwl[34], ar sut i oresgyn unrhyw heriau o ran defnyddio cyllidebau cyfun (cyllidebau cyfunol o awdurdodau lleol a chyrff y GIG) ar gyfer gwasanaethau i bobl sydd ag anabledd dysgu a phobl awtistig.

60. Ochr yn ochr â’r broses ymgynghori, sydd bellach wedi dod i ben, comisiynodd y llywodraeth Skills for Care (elusen annibynnol sy’n helpu i greu gweithlu gofal cymdeithasol medrus a gwerthfawr a arweinir yn dda ar gyfer oedolion), i ddatblygu a chyhoeddi canllawiau i atgoffa cyrff comisiynu o bwysigrwydd cydweithio a sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar waith ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu. Bydd y canllawiau hyn hefyd yn eu hannog i adrodd am wariant yn fwy tryloyw, cyn newidiadau i ddeddfwriaeth. Cyhoeddir y canllawiau’n fuan.

**Grant Rhyddhau Cleifion i’r Gymuned**

61. Yn 2020, ymrwymodd y llywodraeth £74 miliwn (£62 miliwn yn Lloegr) i roi arian ychwanegol i awdurdodau lleol i gyflymu’r broses o ryddhau cleifion sydd ag anableddau dysgu neu awtistiaeth (neu’r ddau) o ysbytai iechyd meddwl i’r gymuned. Mae’r cyllid yn darparu cyllid ychwanegol fel y gall awdurdodau lleol fynd i’r afael â ‘chostau rhedeg dwbl’, pan fo costau’n digwydd cyn rhyddhau person yn ffurfiol pan fo person yn dal i fod yn glaf mewnol y mae angen gwely arno, ac y bo pecyn gofal cymunedol ar waith hefyd.

---

[33] https://www.gov.uk/government/publications/ssac-occasional-paper-23-the-use-of-public-funds-in-supporting-the-mobility-needs-of-disabled-people
[34] https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-the-mental-health-act

62. Mae cyllid y flwyddyn gyntaf (£20 miliwn yn Lloegr) wedi ei dalu i bob awdurdod lleol arweiniol enwebedig a disgwylir i ddyraniadau blwyddyn ariannol 2021 i 2022 gael eu dosbarthu cyn bo hir. Mae'r llywodraeth hefyd wedi cynnal gwerthusiad i asesu sut y gwariwyd y grant yn ystod y flwyddyn gyntaf.

**Grant iechyd Thalidomid**

63. Dechreuwyd grant iechyd Thalidomid yn 2012. Gan gydnabod anghenion cymhleth ac arbenigol iawn unigolion yr effeithiwyd arnynt gan thalidomid, yn enwedig wrth iddynt nesáu at oedran hŷn, addawyd £80 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae'r cyllid hwn yn eu helpu i gadw rheolaeth dros eu hiechyd.

64. Ar 3 Mawrth 2021, gwnaeth y Canghellor ymrwymiad oes i barhau â grant iechyd thalidomid y tu hwnt i 2022 i 2023 (pan ddaw'r cyllid presennol i ben), fel nad oes rhaid i neb a gefnogir ganddo boeni am gostau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn y dyfodol. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys taliad cychwynnol o oddeutu £39 miliwn ar gyfer y 4 blynedd gyntaf ar ôl i'r grant presennol ddod i ben. Bydd ffigurau ariannu yn y dyfodol yn cael eu cadarnhau bob pedair blynedd ar ôl hynny, yn dilyn asesiad o'r angen.

**Better Care Fund**

65. Better Care Fund (BCF) yw'r polisi cenedlaethol sy'n hybu'r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae BCF yn ei gwneud yn ofynnol i Grwpiau Comisiynu Clinigol y GIG ac awdurdodau lleol wneud cynlluniau ar y cyd er mwyn cefnogi integreiddiad a phersonoli iechyd a gofal cymdeithasol fel partneriaid, drwy gyllidebau cyfun. Telir Grant Cyfleusterau i'r Anabl i Awdurdodau Lleol drwy strwythur y BCF.

66. Trwy BCF, mae llywodraeth y DU yn darparu cyllid cyfalaf i awdurdodau lleol yn Lloegr er mwyn helpu i dalu costau addasiadau i'r cartref ar gyfer pobl sy'n gymwys i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Mae'r llywodraeth wedi buddsoddi dros £4 biliwn yn y grant (2010-2011 i 2021-2022), gan ddarparu oddeutu 450,000 o addasiadau.

67. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a cheir consensws clir am gyllid i barhau i ganiatáu i wasanaethau barhau, ac i'r systemau iechyd a gofal barhau i gydweithio'n effeithiol ar lefel leol. Rydym wedi ymrwymo o leiaf £6.9 biliwn i gefnogi'r cydweithrediad hwn ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022. Cyhoeddodd y llywodraeth BCF Policy Framework[35] ym mis Awst 2021, sy'n cadarnhau amodau cyllido ar gyfer blwyddyn ariannol 2021 i 2022.

68. Yn ogystal â Grant Cyfleusterau i'r Anabl, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi mewn addasiadau i'r cartref drwy nifer o gynlluniau grant atodol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cefnogi dros 34,000 o addasiadau bob blwyddyn.

---

[35] https://www.gov.uk/government/publications/better-care-fund-policy-framework-2021-to-2022

**Cyllid gofal cymdeithasol**

69. Trwy gydol y pandemig, rydym wedi darparu dros £2 biliwn o gyllid penodol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion.

70. Mae'r llywodraeth wedi darparu £1.7 biliwn o gyllid grant i gynghorau yn Lloegr ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion a phlant eleni. Mae hyn yn cynnwys £300 miliwn o gyllid grant ychwanegol a pharhad y grant gofal cymdeithasol presennol o £1.4 biliwn.

71. Trwy braesept gofal cymdeithasol i oedolion o 3%, mae cynghorau hefyd yn gallu cael gafael ar £790 miliwn ychwanegol o gyllid newydd ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. Mae hyn yn ogystal â pharhad £2.1 biliwn o gyllid gofal cymdeithasol i oedolion o gronfa Improved Better Care.

72. Mae'r llywodraeth hefyd wedi darparu £6 biliwn ychwanegol o gyllid yn uniongyrchol i gynghorau i'w cefnogi gydag effeithiau uniongyrchol a hirdymor pwysau gwariant COVID-19, gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol.

73. Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn helpu i gefnogi pobl anabl ledled Cymru. Ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022, gwneir £89 miliwn ar gael i gefnogi darpariaeth y Gronfa Gofal Integredig drwy ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. O'r cyllid hwn, mae £3 miliwn ar gael i gefnogi'r broses o weithredu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac £20 miliwn i gefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu, plant sydd ag anghenion cymhleth a gofalwyr.

74. Yn Llywodraeth Cymru, gwnaed £200,000 o gyllid ychwanegol ar gael i ddarparu cymorth COVID-19 brys i bobl anabl ar lefelau lleol. Mae hyn wedi ategu dyraniad o £100,000 a wnaed gan Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol Cymru, gan sicrhau y gellir cael mwy o effaith.

75. Mae'r Gronfa Caledi Llywodraeth Leol wedi bod ar waith ers dechrau'r pandemig, gan helpu i gefnogi darparwyr gofal i ddarparu gofal a chymorth hanfodol ar draws y sector gofal cymdeithasol cyfan o dan amgylchiadau heriol iawn. Darparwyd dros £140 miliwn o gymorth ariannol i awdurdodau lleol drwy'r Gronfa Caledi a byrddau iechyd lleol yn ystod y cyfnod hwnnw.

76. Yn ogystal â chefnogi 9 prosiect ledled Cymru, penodwyd cydgysylltydd cronfa argyfwng y Sefydliadau Pobl Anabl yn Anabledd Cymru sy'n darparu arbenigedd mewn codi arian, cyfathrebu, cydraddoldeb a'r gallu i gael gafael ar gyllid yn y dyfodol yn ogystal â rhwydweithio'r prosiectau gyda'i gilydd er mwyn cyflawni canlyniadau mwy llwyddiannus.

77. Yng Ngogledd Iwerddon, ar hyn o bryd, mae 414 o dderbynwyr dyfarndaliadau Independent Living Fund (ILF). Dosberthir dyfarndaliadau ILF ar ran yr Adran Iechyd i'r derbynwyr hynny yng Ngogledd Iwerddon sydd ag anableddau difrifol a/neu gymhleth ag anghenion gofal dwys, gan ddefnyddio seilwaith ILF yr Alban.

78. Mae Cronfa'r Teulu/Family Fund (FF) yn cynnig ystod eang o nwyddau a gwasanaethau a allai ganolbwyntio ar gefnogi anghenion y plentyn sydd ag anabledd yn uniongyrchol, ond sydd â'r nod o wella llesiant cyffredinol y teulu y mae anabledd yn effeithio'n andwyol arno i'r un graddau. Ym mlwyddyn ariannol 2020 i 2021, darparodd yr Adran Addysg £40.8 miliwn i FF ar gyfer ymgeiswyr yn Lloegr, ac yng Ngogledd Iwerddon, darparodd yr Adran Iechyd £1.57 miliwn o gyllid ar gyfer ymgeiswyr.

**Argymhelliad 114e**

**Cyflwyno'r holl addasiadau angenrheidiol i sicrhau bod yr holl wybodaeth, cyfathrebu, gweithdrefnau gweinyddol a chyfreithiol yn gwbl hygyrch i bob person sydd ag anabledd mewn cysylltiad â hawliau nawdd cymdeithasol, cynlluniau byw'n annibynnol, a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â chyflogaeth/diweithdra.**

79. O dan adran 20 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan bob sefydliad, gan gynnwys llywodraeth y DU, ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol wrth ddarparu gwasanaethau ar-lein neu all-lein. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl wybodaeth, cyfathrebu a gweithrediadau yn hygyrch i bobl anabl.

80. Mae Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth wedi cyflwyno hyrwyddwr hygyrchedd lefel uwch i arwain ei hymrwymiad parhaus i godi safonau hygyrchedd ar draws pob adran, gan gynnwys ar ei gwefannau digidol, ei hapiau a'i sianeli cyfryngau cymdeithasol.

81. Mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwnaeth llywodraeth y DU nifer o newidiadau i fudd-daliadau iechyd ac anabledd er mwyn diogelu iechyd ein cwsmeriaid a'n staff. Y newidiadau hyn oedd:

    * cyflwyno asesiadau dros y ffôn, pan fo hynny'n addas, yn ogystal ag asesiadau ar bapur a oedd yn bodoli eisoes
    * roedd trydydd partïon yn gallu ymuno ag asesiadau dros y ffôn yn ôl yr angen;
    * cyflwyno recordiad sain o'r asesiadau dros y ffôn pan oedd y cwsmer yn dymuno hynny
    * treialu asesiadau fideo.

82. Yn awr, gall cwsmeriaid wneud cais AtW ar-lein 24/7 a dewis amser sy'n gyfleus iddynt. Ym mis Gorffennaf 2019, lansiodd llywodraeth y DU gymorth cyfathrebu AtW yn y gwasanaeth cyfweld, ble gall person anabl wneud cais am gyllid ar gyfer cymorth cyfathrebu mewn cyfweliad am swydd. Mae hyn yn gwneud y broses ymgeisio yn symlach, yn fwy cyfleus ac yn gyflymach i gwsmeriaid y mae angen cymorth ar fyr rybudd arnynt ar gyfer cyfweliad.

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi**

83. Mae rhaglen ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn arwain at fwy o ddarpariaeth a hygyrchedd ar-lein, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd

Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau ar gyfer Dyfeisiau Symudol) (Rhif 2) 2018[36]. Bydd y diwygiadau'n gwneud y llysoedd yn fwy hygyrch i'r rhai a allai gael anhawster wrth deithio, fel sy'n gallu digwydd pan fo materion budd-dal anabledd yn codi yn y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chymorth i Blant.

84. Caiff gwasanaethau ar-lein Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, gan gynnwys y rhai ar gyfer apeliadau Nawdd Cymdeithasol, eu cynllunio a'u profi gydag amrywiaeth o ddefnyddwyr, gan gynnwys y rhai y gallai eu sgiliau digidol fod yn gyfyngedig neu'r rhai nad oes ganddynt sgiliau digidol. Fe'u datblygir hefyd i fod yn hygyrch fel y gall pobl sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol wasanaethu eu hunain, a defnyddir iaith syml i leihau'r llwyth gwybyddol i ddefnyddwyr.

85. Mae'r gallu sain a fideo wedi ei gynyddu mewn ymateb i bandemig COVID-19. Ar gyfer gwrandawiadau a all ddigwydd o bell, gofynnwn i gyfranogwyr ddweud wrth y tribiwnlys os oes angen cymorth ychwanegol arnynt neu os na allant gymryd rhan yn effeithiol mewn gwrandawiad sain neu fideo. Gall y barnwr benderfynu a yw gwrandawiad o bell yn briodol ai peidio, gan ystyried anghenion y partïon (gan gynnwys eu gallu i ddefnyddio gwasanaethau digidol), neu sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, pan fo hynny'n bosibl, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr anabl yn gallu cymryd rhan.

86. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi ei Gynllun Gweithredu ar gyfer Pobl Fregus[37] sy'n nodi sut y mae'n sicrhau bod unrhyw effeithiau anfwriadol ar ddefnyddwyr sy'n agored i niwed yn cael eu hystyried, ac yn gallu ymgysylltu â ffyrdd newydd o weithio. Mae'r cynllun yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn gallu defnyddio'r system gyfiawnder heb fod dan anfantais a heb wahaniaethu yn eu herbyn.

**Hygyrchedd gwefannau'r sector cyhoeddus ac apiau ar gyfer dyfeisiau symudol**

87. Nod Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau ar gyfer Dyfeisiau Symudol) 2018 ("rheoliadau hygyrchedd") yw i gyrff y sector cyhoeddus wneud eu gwefannau, a'u hapiau ar gyfer dyfeisiadau symudol yn hygyrch. Mae hyn yn golygu eu gwneud yn weladwy, yn weithredol, yn ddealladwy ac yn gadarn i safon hygyrchedd a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae'n rhaid iddynt gyhoeddi a chynnal datganiad hygyrchedd hefyd sy'n esbonio i ddefnyddwyr beth yw lefel hygyrchedd y wefan, neu'r ap ar gyfer dyfeisiau symudol.

88. Mae'r Swyddfa Digidol a Data Canolog (CDDO) wedi sefydlu tîm monitro hygyrchedd i fonitro sampl o wefannau ac apiau ar gyfer dyfeisiau symudol y sector cyhoeddus, gan edrych ar eu hygyrchedd, gan ddefnyddio cyfuniad o archwiliadau awtomataidd ac archwiliadau â llaw.

89. Mae CDDO a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon a'r Gwasanaeth Cynghori a Cymorth Cydraddoldeb wedi sefydlu

---

[36] https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2018/852/contents/made
[37] https://www.gov.uk/government/publications/hmcts-vulnerability-action-plan

proses adrodd ar gyfer defnyddwyr, gan ddefnyddio datganiadau hygyrchedd i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr anabl adrodd materion hygyrchedd mewn cysylltiad â gwefannau'r sector cyhoeddus.

90. Mae CDDO hefyd yn arwain ar Safon Gwasanaethau y llywodraeth a'r Cod Ymarfer Technoleg. Canllaw 14 pwynt sy'n helpu timau'r llywodraeth i greu ac i redeg gwasanaethau cyhoeddus yw Safon Gwasanaeth, ac mae ar gael ar GOV.UK[38]. Mae Pwynt 2 yr Ymarfer ("gwneud pethau'n hygyrch ac yn gynhwysol") yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau'r llywodraeth sicrhau bod eu technoleg yn hygyrch i bob defnyddiwr, gan gynnwys defnyddwyr mewnol, megis staff gweithredol a gweinyddol. Mae hefyd yn darparu canllawiau ar gaffael a chyflenwi technoleg hygyrch.

91. Mae Safon Gwybodaeth Hygyrch y llywodraeth[39] yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol roi gwybodaeth i bobl anabl ar ffurf y gallant ei deall a'r cymorth cyfathrebu sydd ei angen arnynt. Mae gwaith wedi dechrau ar raglen gwaith gwella hygyrchedd ar gynhyrchion cwsmeriaid a gynhelir ar GOV.UK i'w gwneud yn rhai sy'n cydymffurfio â chanllawiau hygyrchedd cynnwys y we WCAG 2.1 i safon 'AA'.

92. Yn yr Alban, mae Deddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban roi sylw i bwysigrwydd cyfathrebu mewn ffordd gynhwysol, gan sicrhau bod pobl sy'n cael anhawster cyfathrebu yn gallu cael gwybodaeth a mynegi eu hunain mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban sicrhau bod gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd mewn fformat hygyrch.

93. Mae Llywodraeth yr Alban yn ariannu ac yn cefnogi contactSCOTLAND - BSL online interpreting Video Relay Service, sy'n galluogi defnyddwyr Byddar a Dall fyddar Iaith Arwyddion Prydain i ffonio, drwy gyfieithwyr trosglwyddo fideo, rifau'r sector preifat yn ogystal â rhifau statudol a thrydydd sector, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

94. Cydnabu Llywodraeth Cymru Iaith Arwyddion Prydain yn ffurfiol yn ei rhinwedd ei hun yn 2004. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi hyfforddiant i gynyddu nifer y cyfieithwyr ar y pryd cymwysedig yng Nghymru, ac wedi sicrhau bod deddfwriaeth, polisïau a rhaglenni ar draws Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu hygyrch.

95. Ym mis Mehefin 2020, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cyfathrebu Hygyrch i oresgyn rhwystrau a gwella'r gallu i gael gafael ar wybodaeth yn ystod pandemig COVID-19.

96. Ym mis Chwefror 2021, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid fel y gall Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain gynnal archwiliad o'i pholisïau a'i darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain. Dechreuodd y gwaith hwn ym mis Chwefror 2021 a daeth i ben ym mis Gorffennaf 2021.

---

38 https://www.gov.uk/service-manual/service-standard
39 https://www.england.nhs.uk/ourwork/accessibleinfo/

97. Mae Uned Gydraddoldeb Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon yn cynnig y gwasanaethau cymorth cyfathrebu canlynol i gwsmeriaid sydd ag anableddau:
- cyfieithu ar y pryd o/i iaith arwyddion wyneb yn wyneb
- gwasanaeth trosglwyddo fideo
- Relay UK (a elwid gynt yn Text Relay) sy'n caniatáu i gwsmeriaid byddar ryngweithio â staff y Weithrediaeth Dai dros y ffôn – mae'r cwsmer yn anfon neges at weithiwr trosglwyddo sydd wedyn yn rhoi'r neges ar lafar i'r aelod o staff
- sain, braille a phrint bras
- DAISY - Digital Accessible Information System
- hyrwyddwyr a ffrindiau dementia - mae Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon wedi hyfforddi dros 50 o Hyrwyddwyr Dementia sydd yn y broses o wneud cynifer o'n staff rheng flaen â phosibl yn 'ffrindiau dementia' - sy'n sensitif i anghenion cyfathrebu pobl sydd â dementia
- BrowseAloud - mae meddalwedd ar wefan Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon yn troi'r wefan yn fersiwn sain trwy glicio botwm ar bob tudalen
- JAM gyfeillgar - mae Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon yn gweithio tuag at ddod yn sefydliad JAM (Just a Minute) gyfeillgar ar gyfer pobl sydd ag anawsterau dysgu, awtistiaeth, neu rwystrau cyfathrebu

**Argymhelliad 114f**

**Sicrhau mynediad at gyfiawnder, drwy ddarparu cyngor a chymorth cyfreithiol priodol, gan gynnwys drwy lety rhesymol a gweithdrefnol i bobl sydd ag anableddau sy'n ceisio iawn ac iawndal am yr ymyriad honedig o'u hawliau a gwmpesir gan yr adroddiad hwn.**

98. O dan Ran 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO)[40], mae achosion sy'n ymwneud â gofal cymunedol, anghenion addysgol arbennig, gwahaniaethu ar sail anabledd, iechyd meddwl, a galluedd meddyliol yng nghwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol sifil yng Nghymru a Lloegr, yn amodol ar ymgeiswyr yn bodloni'r profion rhinweddau a'r moddion statudol perthnasol.

99. Cyhoeddodd llywodraeth y DU Adolygiad Ôl-Weithredu o Ran 1 o LASPO yn 2019[41], sy'n ymdrin â'r newidiadau i'r cynllun cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr a wnaed gan LASPO. Gwnaeth yr adolygiad hwn asesiad gwrthrychol o effaith y newidiadau cymorth cyfreithiol a wnaed gan y ddeddf o'i chymharu â'i hamcanion gwreiddiol.

100. Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, cyhoeddodd y llywodraeth Gynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol[42], sy'n nodi'r cyfeiriad teithio yn y dyfodol yn dilyn yr adolygiad.

[40] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2012/10/contents/enacted
[41] https://www.gov.uk/government/publications/post-implementation-review-of-part-1-of-laspo
[42] https://www.gov.uk/government/publications/legal-support-action-plan

101. Yn rhan o'r cynllun gweithredu hwn, gwnaed newidiadau mewn deddfwriaeth ym mis Mai 2020 i ddileu'r gofyniad i ymgeiswyr cymorth cyfreithiol sydd ag achosion anghenion addysgol arbennig, gwahaniaethu a dyledion i geisio cyngor yn gyntaf drwy wasanaethau ffôn y Cyngor Cyfreithiol Sifil, gan adfer mynediad uniongyrchol i gyngor cyfreithiol wyneb yn wyneb yn yr achosion hyn.

102. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu mynediad at gyfiawnder yn llysoedd sifil a thribiwnlysoedd cyflogaeth y DU ar gyfer pob grŵp a gwmpesir o dan y ddeddf, gan gynnwys pobl anabl. Yn unol ag egwyddorion y ddeddf, dim ond person sydd, neu a allai fod wedi profi gwahaniaethu, sy'n cael ceisio iawn yn bersonol drwy gyflwyno achos i'r llys neu'r tribiwnlys perthnasol. O dan y ddeddf, nid yw'n bosibl hawlio ar ran person arall oni bai ei fod yn gynrychiolydd person anabl nad oes ganddo'r gallu i wneud yr hawliad yn bersonol.

103. Yn ogystal â chynnal yr amddiffyniadau presennol yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mae'r llywodraeth yn bwriadu cynyddu'r amddiffyniad i bobl anabl sy'n rhentu eu llety neu bobl anabl nad ydynt yn berchen ar y tir y maent yn byw arno, drwy gychwyn y rhannau sy'n weddill o Adran 36 o'r ddeddf. Bydd hyn yn ei gwneud yn ddyletswydd i landlordiaid (tirfeddianwyr) wneud addasiadau rhesymol i rannau cyffredin yr eiddo, pan fo preswylydd anabl wedi gofyn am hyn.

104. Ar gyfer unigolion y gwahaniaethwyd yn eu herbyn, mae cyngor nad yw'n gyngor cyfreithiol, cymorth a dull arall o ddatrys anghydfod ar gael o amrywiaeth o ffynonellau i gynorthwyo pobl anabl sydd â phryderon, sy'n rhoi cyfle iddynt ddod i benderfyniad boddhaol ar gyfer datrys anghydfod heb droi at lys a'r holl gostau y gallai hynny ei olygu.

105. Yn 2021, cyflawnodd llywodraeth y DU fuddsoddiad ychwanegol o £5.4 miliwn ar gyfer sefydliadau nid-er-elw sy'n darparu cyngor cyfreithiol arbenigol, megis Canolfannau Cyfraith a nifer o elusennau eraill. Roedd y cyllid grant brys hwn yn cefnogi 72 o sefydliadau i ateb y cynnydd yn y galw am ganllawiau a chyngor, ac i wneud y newidiadau angenrheidiol i'w ffyrdd o weithio yng ngoleuni pandemig COVID-19.

### Cyngor a chefnogaeth

106. Mae'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb yn darparu cyngor pwrpasol am ddim a chymorth manwl dros y ffôn, ar ffôn testun neu ar ei wefan i unigolion sydd â phryderon ynghylch gwahaniaethu. Mae gan y Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb y gallu i ymyrryd ar ran unigolyn, gyda darparwr gwasanaeth i helpu i ddatrys problem.

107. Mae'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu yn darparu cyngor awdurdodol a diduedd am ddim i gyflogeion neu gyflogwyr mewn cysylltiad â materion gwahaniaethu mewn cyflogaeth. Mae'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu hefyd yn darparu cymodi cynnar i gyflogeion a chyflogwyr i'w helpu i ddatrys neu setlo eu dadl yn y gweithle heb fynd i'r llys.

108. Arbenigwyr sy’n gweithio yn eu cymunedau lleol i gynnig cyngor, gwaith achos a chynrychiolaeth i unigolion a/neu grwpiau er mwyn amddiffyn hawliau cyfreithiol pobl na allant fforddio cyfreithiwr yw Canolfannau Cyfraith.

109. Gwrandewir ar hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd sy’n gysylltiedig ag addysg gan ddisgyblion ysgol sy’n codi o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd), sydd hefyd yn gwrando ar apeliadau anghenion addysgol arbennig gan blant neu bobl ifanc sy’n ymwneud â phenderfyniadau awdurdodau lleol.

110. Yn ogystal â hyn, mae Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch yn gorff datrys anghydfodau ar gyfer cwynion addysg uwch. Mae Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol yn derbyn cwynion gan fyfyrwyr anabl sy’n ymwneud ag unrhyw beth y mae eu darparwr addysg uwch wedi ei wneud neu wedi methu â’i wneud sy’n gyfystyr â gwahaniaethu, ar yr amod bod y myfyriwr eisoes wedi codi ei bryderon gyda’i ddarparwr ac nad yw’n fodlon â’r canlyniad. Mae’r broses yn rhad ac am ddim, er nad yw unrhyw benderfyniad gan Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol yn rhwymol yn gyfreithiol. Fodd bynnag, disgwylir i ddarparwyr addysg uwch sy’n aelodau o’r cynllun gydymffurfio.

111. Rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer addysg uwch yn Lloegr yw Office for Students (OfS) ac mae wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bob myfyriwr. Mae OfS yn cofrestru ac yn rheoleiddio darparwyr unigol ac yn rhoi amodau cofrestru ar waith sydd wedi eu cynllunio i sicrhau bod pob myfyriwr, gan gynnwys myfyrwyr anabl, yn gallu cael addysg uwch, llwyddo ynddi, a symud ymlaen ar ôl hynny. Mae OfS yn gallu rhoi cosbau rheoleiddiol ar ddarparwyr sy’n torri’r amodau hyn.

112. Sefydliad a ariennir gan Lywodraeth yr Alban sy’n ymwneud â rhanddeiliaid perthnasol ar hyn o bryd sy’n edrych ar ddull a fydd yn helpu i nodi a helpu pobl sy’n cael eu dwyn i ddalfa’r heddlu y mae ganddynt anghenion cyfathrebu a chymorth ychwanegol yw SOLD (Supporting Offenders with Learning Difficulties). Mae gwaith cychwynnol wedi ei gwblhau ac mae gwaith ychwanegol gydag asiantaethau cyfiawnder eraill wedi ei gynllunio bellach er mwyn sicrhau mynediad cyfartal a theg at gyfiawnder.

**<u>Argymhelliad 114g</u>**

**Ymgynghori ac ymgysylltu yn rhagweithiol â phobl sydd ag anableddau drwy eu sefydliadau cynrychioliadol a rhoi ystyriaeth briodol i’w safbwyntiau wrth gynllunio, gweithredu, monitro a gwerthuso unrhyw ddeddfwriaeth, polisi neu weithred raglennol sy’n gysylltiedig â’r hawliau yr ymdrinnir â nhw yn yr adroddiad hwn.**

113. Mae llywodraeth y DU yn cydnabod pwysigrwydd rhoi lleisiau pobl anabl wrth wraidd y broses o ddatblygu polisïau iechyd ac anabledd. Er mwyn llywio’r papur gwyrdd Iechyd ac Anabledd, ymgysylltodd llywodraeth y DU â phobl anabl a’u cynrychiolwyr mewn cyfres o ddigwyddiadau, i glywed eu profiadau o lywio’r system fudd-daliadau a chymorth cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau.

114. Mae llywodraeth y DU wedi parhau i ddatblygu'r Regional Stakeholder Network (Rhwydwaith Rhanddeiliaid Rhanbarthol) yn Lloegr[43]. Ceir 9 rhwydwaith rhanbarthol sy'n cynnwys pobl anabl, eu sefydliadau, eu rhieni a'u gofalwyr. Mae gan bob Rhwydwaith Rhanddeiliaid Rhanbarthol gadeirydd annibynnol sydd wedi ei gysylltu'n dda yn ei ranbarthau.

115. Mae nifer o'r Rhwydweithiau Rhanddeiliaid Rhanbarthol wedi cyflwyno cyflwyniadau polisi cynhwysfawr i helpu i lywio'r Strategaeth Genedlaethol Anabledd[44] a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r cyflwyniadau polisi hyn yn adlewyrchu mewnwelediad cyfunol a phrofiadau bywyd eu haelodau. Mae un o'r grwpiau rhanbarthol wedi ymgymryd â gwaith casglu mewnwelediad ehangach hefyd a oedd yn gofyn am safbwyntiau 400 o bobl anabl yng Ngogledd-orllewin Lloegr.

116. Mae llywodraeth y DU wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Disability Charities Consortium (Consortiwm Elusennau Anabledd). Consortiwm o 9 o elusennau anabledd mwyaf y DU yw'r Consortiwm Elusennau Anabledd: Business Disability Forum, Leonard Cheshire, Mencap, Mind, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, RNIB, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw, Scope a Sense. Mae swyddogion wedi cwrdd â'r Consortiwm Elusennau Anabledd yn ffurfiol sawl gwaith ac wedi cael llawer o gyfarfodydd grŵp unigol neu gyfarfodydd llai.

117. Roedd profiadau a mewnwelediad pobl anabl yn ganolog i'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol Anabledd. Ar ddechrau 2021, lansiwyd Arolwg Anabledd y DU[45] ar gyfer pobl anabl, gofalwyr a'r cyhoedd ehangach, i rannu safbwyntiau a phrofiadau o'r materion pwysig sy'n effeithio ar bobl anabl. Cwblhaodd dros 16,660 o bobl yr arolwg sy'n helpu'n sylweddol i adeiladu sylfaen dystiolaeth o faterion allweddol, a bydd y mewnwelediad a gafwyd o hyn yn cael ei ddefnyddio wrth weithredu'r strategaeth.

118. Ochr yn ochr ag Arolwg Anabledd y DU, mae llywodraeth y DU wedi ymgymryd ag arferion ymgysylltu eraill hefyd. Hwyluswyd sawl trafodaeth bord gron gan gadeiryddion Rhwydwaith Rhanddeiliaid Rhanbarthol a chynrychiolwyr eraill y trydydd sector gyda phobl anabl am eu profiadau bywyd bob dydd. Defnyddir y profiad hwn i helpu i weithredu'r Strategaeth Genedlaethol Anabledd.

### Ymgysylltu ar gyfer pobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol

119. Mae llywodraeth y DU yn parhau i ymgysylltu ag elusennau wrth ddarparu cynlluniau COVID-19 ar gyfer pobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol a chynlluniau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed nad ydynt ar restr warchod COVID-19. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn sicrhau bod elusennau yn gallu cyfrannu i'r broses o ffurfio polisïau a'r broses o ffurfio negeseuon, ac y gellir codi materion pwysig hefyd,

[43] https://www.gov.uk/government/news/regional-stakeholder-network-to-give-disabled-people-a-stronger-voice
[44] https://www.gov.uk/government/collections/national-disability-strategy-and-related-publications
Gweler hefyd https://www.gov.uk/government/publications/national-disability-strategy
[45] https://www.gov.uk/government/news/citizen-space-survey-national-strategy-for-disabled-people

ac yn eu tro y gellir cyfleu'r rhain i adrannau eraill y llywodraeth, ac i archfarchnadoedd hefyd.

120. Yn ystod misoedd cyntaf pandemig COVID-19, cynhaliwyd Fforwm Anabledd gyda rhanddeiliaid, gan ddod â lleisiau o bob rhan o'r elusen a'r sector gwirfoddol at ei gilydd.

121. Yn fwy diweddar, mae llywodraeth y DU wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda Voluntary and Community Sector Emergencies Partnership (VCSEP), dan gadeiryddiaeth Independent Age a'r Groes Goch. Ym mis Tachwedd 2020, parhaodd llywodraeth y DU i adeiladu ar y gweithgaredd ymgysylltu cynnar hwn drwy sefydlu ei Fforwm Elusennau anffurfiol ei hun gydag Independent Age (yn cynrychioli ei hun a 14 o elusennau llai eraill sy'n ymwneud â'r gallu i gael bwyd a fforddiadwyedd).

122. Mae'r Fforwm Elusennau yn parhau i gwrdd bob mis i drafod ffyrdd y gall y llywodraeth barhau i gydweithio â'r sector gwirfoddol i sicrhau bod anghenion gallu i gael bwyd pobl anabl yn cael eu diwallu, yn enwedig wrth inni symud ymlaen drwy gamau map trywydd y Prif Weinidog.

123. Bydd Comisiwn Elusennau llywodraeth y DU hefyd yn cael ei ddefnyddio fel fforwm i lywio trafodaethau polisi sy'n ymwneud â gallu unigolion sy'n agored i niwed i gael bwyd, ac i ymgysylltu ag archfarchnadoedd a rhanddeiliaid eraill ar y materion hyn.

**Ymgysylltu ar faterion cludiant**

124. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn parhau i weithio'n agos gyda Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl a llawer o sefydliadau anabledd eraill, gan gynnwys drwy ei Grŵp Strategaeth Cludiant Cynhwysol wrth lunio polisïau ar draws pob dull cludiant. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn llywio'r broses o gyflawni gwelliannau hygyrchedd drwy Strategaeth Cludiant Cynhwysol y Llywodraeth, y Strategaeth Genedlaethol Anabledd, a Strategaethau Cenedlaethol ar gyfer Bysiau, Beicio a Cherdded.

125. Mae'n ofynnol, o dan reoliadau, i gwmnïau gwasanaethau teithwyr ymgysylltu â grwpiau cynghori ar anabledd drwy gydol cyfnodau polisïau a dylunio er mwyn sicrhau bod cynlluniau arfaethedig yn diwallu anghenion y teithwyr hyn.

126. Mae gweinidog hygyrchedd yr Adran Drafnidiaeth yn cwrdd yn rheolaidd â grwpiau anabledd i drafod hygyrchedd a'r dasg o gyflawni gwelliannau a'r modd y gallwn gefnogi pobl anabl yn ystod pandemig COVID-19.

127. Mae Transport Scotland wedi ymrwymo i Siarter Troseddau Casineb ar gludiant cyhoeddus. Ym mis Mawrth 2021, lansiwyd y siarter yn dawel ar y rhwydwaith bysiau a rheilffyrdd.

**Gwaith ymgysylltu arall**

128. Yn ystod y broses o greu cynllun trawsnewid awtistiaeth a dysgu/anabledd deallusol 'Towards Transformation', mae Llywodraeth yr Alban yn ymgysylltu'n weithredol â sefydliadau cynrychioliadol wrth gydgynllunio'r cynllun. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod yr arweinyddiaeth a gweithrediad y strategaeth yn gydweithredol a bod profiadau bywyd wrth wraidd y trefniadau arwain. Mae'r strategaeth yn bwriadu dilyn egwyddorion Dull yr Alban, ac mae'r gwaith yn cael ei arwain gan ddefnyddwyr a'i gynhyrchu ar y cyd.

129. Mae gan Lywodraeth Cymru rwydwaith cryf o Fforymau Cydraddoldeb i ymgynghori ac i ymgysylltu'n rheolaidd â nhw ynghylch materion sy'n wynebu'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru. Rhoddodd y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl a gadeirir gan y Gweinidog gyfle i randdeiliaid gynghori Llywodraeth Cymru ar y materion allweddol sy'n effeithio ar bobl anabl yng Nghymru. Cyfarfu'n aml yn ystod pandemig COVID-19, gan sicrhau bod lleisiau pobl anabl yn cael eu clywed.

130. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi sefydlu rhaglen i ddatblygu dewisiadau ar gyfer darparu rhaglenni a gwasanaethau cyflogadwyedd yn y dyfodol, o 2020 ymlaen. Mae'r bwlch cyflogaeth anabledd yn sbardun allweddol i'r gwaith hwn a bydd y dull newydd yn blaenoriaethu cymorth i'r rhai sydd â chyflyrau iechyd a/neu anableddau. Bydd ymgysylltu â sefydliadau Cymorth Anabledd yn ogystal â phobl anabl yn elfen graidd o'r rhaglen waith a fydd yn llywio'r dull a'r dyluniad newydd wrth symud ymlaen.

131. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu Strategaeth Cyflogaeth i Bobl Anabl newydd a fydd yn gyson ag elfennau cyflogaeth yn y Strategaeth Anabledd newydd, gan eu cyflawni. Yn y datblygiad hwn, bydd camau tystiolaeth a gesglir gyda phartneriaid ac unigolion allweddol yn llywio'r gwaith o gydgynllunio strategaeth a chynllun gweithredu drafft, a fydd yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus.

**<u>Argymhelliad 114h</u>**

**Cymryd camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw stereoteipiau a rhagfarnau negyddol a gwahaniaethol yn erbyn pobl sydd ag anableddau yn y cyhoedd a'r cyfryngau, gan gynnwys bod dibyniaeth ar fudd-daliadau ynddi ei hun yn gwrthannog cyflogaeth; gweithredu ymgyrchoedd cyfryngau torfol eang, mewn ymgynghoriad â sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ag anableddau, yn enwedig y rhai yr effeithir arnynt gan y diwygiadau lles, i'w hyrwyddo nhw fel deiliaid hawliau llawn, yn unol â'r Confensiwn; a mabwysiadu mesurau i fynd i'r afael â chwynion am aflonyddwch a throseddau casineb gan bobl ag anableddau, ymchwilio'n brydlon i'r honiadau hyn, dal cyflawnwyr yn atebol a darparu iawndal teg a phriodol i ddioddefwyr.**

**Troseddau casineb, aflonyddwch ar-lein a bwlio**

132. Mae llywodraeth y DU yn cymryd pob math o droseddau casineb o ddifrif, gan

gynnwys yr hyn a dargedir at bobl anabl. Mae'r fframwaith deddfwriaethol i fynd i'r afael â throseddau casineb yn cynnwys darpariaethau i'r llys gynyddu dedfryd pan ysgogir trosedd gan elyniaeth tuag at anabledd rhywun. Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad llawn o ddeddfwriaeth troseddau casineb, gan gynnwys cwmpas a dull y darpariaethau deddfwriaethol presennol ar gyfer troseddau casineb, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

133. Cyhoeddwyd ymateb llawn y llywodraeth i ymgynghoriad Online Harms White Paper ym mis Rhagfyr 2020[46], sy'n nodi'r disgwyliadau newydd ar gwmnïau i gadw eu defnyddwyr yn ddiogel ar-lein, gan gynnwys bod yn rhaid i bob cwmni perthnasol fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon yn eu rhaglenni, a diogelu plant rhag cynnwys a gweithgarwch niweidiol ar-lein. Bydd defnyddwyr a phobl eraill yr effeithir arnynt hefyd yn gallu cael iawndal pan fyddant yn dod ar draws cynnwys niweidiol. Bydd hyn yn cynnwys cwynion gan y rhai sydd â nodweddion, megis anabledd, sydd wedi eu targedu gan y cynnwys a'r rhai sy'n rhoi cymorth i'r rhai y mae angen cymorth arnynt i ddefnyddio'r broses gwyno.

134. Cyhoeddwyd y Mesur Diogelwch Ar-lein,[47] a fydd yn gweithredu'r fframwaith rheoleiddio a amlinellir yn ymateb llawn y llywodraeth i Online Harms White Paper, ar ffurf drafft ym mis Mai 2021. Mae'r broses o graffu ar y Bil drafft cyn deddfu ar y gweill.

135. Darparodd llywodraeth y DU dros £2.8 miliwn o gyllid i sefydliadau gwrth-fwlio rhwng 2016 a 2020, er mwyn cefnogi ysgolion i fynd i'r afael â bwlio. Roedd y cyllid hwn yn cynnwys prosiectau sy'n targedu bwlio grwpiau penodol, megis y rhai sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd, ynghyd â phrosiect i adrodd am fwlio ar-lein.

136. Ar 7 Mehefin 2020, gwnaethom gadarnhau bod £750,000 o gyllid ychwanegol wedi ei ddyfarnu i dri o'r sefydliadau hyn (The Diana Award, Anti-Bullying-Alliance ac Anne Frank Trust) tan fis Mawrth 2021, er mwyn darparu cymorth parhaus i ysgolion. Ar hyn o bryd, rydym yn caffael rhaglen cymorth gwrth-fwlio newydd i ysgolion, sydd â phwyslais addasedig ar nodweddion gwarchodedig gan gynnwys anabledd.

137. Yn yr Alban, cafodd Deddf Troseddau Casineb a Threfn Gyhoeddus (Yr Alban) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2021[48] ac mae gwaith ar y gweill yn awr i ddatblygu cynllun gweithredu, gan gynnwys cychwyn. Datblygwyd y ddeddf mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan adolygiad annibynnol yr Arglwydd Bracadale o ddeddfwriaeth troseddau casineb yn yr Alban. Pan fydd mewn grym, bydd y ddeddf yn cydgrynhoi, yn moderneiddio ac yn ymestyn deddfwriaeth troseddau casineb – gan sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr Alban yn yr unfed ganrif ar hugain.

---

46 https://www.gov.uk/government/consultations/online-harms-white-paper

47 https://www.gov.uk/government/publications/draft-online-safety-bill

48 https://www.legislation.gov.uk/cy/asp/2021/14/contents

138. Mae Llywodraeth yr Alban yn parhau i ymgysylltu â nifer o Sefydliadau Pobl Anabl sydd o dan ymrwymiadau yng nghynllun gweithredu Tackling Prejudice and Building Connected Communities[49]. Mae'n gwneud hyn er mwyn:

* codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac annog rhagor o adrodd am droseddau casineb anabledd
* gwella data a thystiolaeth ac adrodd gan drydydd partïon wrth ddatblygu Deddf Troseddau Casineb a Threfn Gyhoeddus (Yr Alban) 2021

**Llythrennedd yn y Cyfryngau**

139. Ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddodd y llywodraeth Strategaeth Llythrennedd y Cyfryngau Ar-lein[50] sy'n nodi ein huchelgais i wella galluoedd llythrennedd cyfryngau defnyddwyr, drwy gefnogi sefydliadau i rymuso defnyddwyr â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau gwybodus a diogel ar-lein.

140. Mae'r strategaeth yn gynhwysol ac mae'n canolbwyntio'n helaeth ar bobl anabl, neu'r rhai a allai brofi symiau anghymesur o gamdriniaeth ar-lein.

141. Gwnaethom gyhoeddi hefyd y Cynllun Gweithredu Llythrennedd Cyfryngau Ar-lein blynyddol cyntaf sy'n cynnwys ariannu'r broses o gyflwyno rhaglen hyfforddi'r hyfforddwyr ar gyfer athrawon a gofalwyr plant anabl, i'w helpu i gefnogi'r rhai y maent yn gweithio gyda nhw i reoli eu bywydau ar-lein.

**Ymgyrchoedd**

142. Yn 2018 a 2019, cynhaliodd llywodraeth y DU ddwy don o ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd cenedlaethol ynghylch troseddau casineb, gan gynnwys senarios troseddau casineb tuag at bobl anabl, i'w gwneud yn glir mai troseddau yw'r rhain ac na chânt eu goddef.

143. O dan ymrwymiadau blaenoriaethau Strategaeth Awtistiaeth 2018-2021 Llywodraeth yr Alban[51], gwnaethom lansio ein hymgyrch Different minds, One Scotland[52] ym mis Hydref 2020 i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth.

144. Bydd yr ymgyrch yn herio stigma a mythau i roi dealltwriaeth gliriach o awtistiaeth i'r cyhoedd. Datblygwyd yr ymgyrch ar y cyd â phobl awtistig, ac mae'n rhedeg mewn cysylltiad â phrosiectau trydydd sector a ariennir ledled yr Alban i ymgorffori dealltwriaeth yn lleol.

145. Lansiodd Llywodraeth yr Alban ymgyrchoedd troseddau casineb yn 2017, 2018 a 2020 i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac annog pobl i adrodd. Lansiwyd ymgyrch 'Letters from Scotland' 2020 mewn ymateb i bryderon a godwyd, gan gynnwys pryderon, gan Sefydliadau Pobl Anabl, y bu cynnydd mewn

---

[49] https://www.gov.scot/publications/tackling-prejudice-building-connected-communities-scottish-government-response-report-independent/pages/5/
[50] https://www.gov.uk/government/publications/online-media-literacy-strategy
[51] https://www.gov.scot/publications/scottish-strategy-autism-outcomes-priorities-2018-2021/
[52] https://differentminds.scot/

digwyddiadau casineb, all-lein ac ar-lein, drwy gydol pandemig COVID-19.

146. Ym mis Mawrth 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch ‘Mae casineb yn brifo Cymru’[53] i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r effaith y mae troseddau casineb yn eu cael ar ddioddefwyr unigol, gan gynnwys pobl anabl. Mae’n annog dioddefwyr a gwylwyr i roi gwybod am droseddau casineb i helpu i’w hatal, a chreu Cymru fwy diogel.

**Argymhelliad 114i**

**Sicrhau, wrth weithredu deddfwriaeth, polisïau a rhaglenni, y rhoddir sylw arbennig i bobl ag anableddau sy’n byw ar incwm isel neu mewn tlodi, pobl ag anableddau sydd â risg uwch o gael eu diarddel, megis pobl ag anableddau deallusol, seicogymdeithasol neu luosog, menywod, plant a phobl hŷn ag anableddau; dylid rhoi’r mesurau hyn ar waith mewn cyfundrefnau cyfraniadol a chyfundrefnau nad ydynt yn rhai cyfraniadol.**

147. Mae llywodraeth y DU o’r farn bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, fel y’i nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn darparu dull ar gyfer nodi effeithiau anfwriadol neu anghymesur polisïau ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys pobl anabl.

148. Mae llywodraeth y DU yn bwriadu creu dyletswyddau newydd ar gomisiynwyr yn Lloegr (Grwpiau Comisiynu Clinigol, GIG Lloegr ac awdurdodau lleol) er mwyn sicrhau bod digon o wasanaethau yn y gymuned i gefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu a phobl awtistig. Bydd hyn yn eu cefnogi ymhellach i fyw’n annibynnol gyda’r gefnogaeth gywir yn eu cymuned.

149. Bydd creu cofrestr ‘mewn perygl’ neu ‘gymorth’ lleol yn rhoi dyletswydd ar gomisiynwyr y dylai pob ardal leol ddeall a monitro’r risg o argyfwng ar lefel unigol, i bobl sydd ag anableddau dysgu a phobl awtistig.

150. Mae strategaeth ‘Think Autism’[54] (a gyhoeddwyd yn 2014 o dan Ddeddf Awtistiaeth 2009[55]) wedi ei hadnewyddu ac rydym wedi ymestyn ei chwmpas i gynnwys plant a phobl ifanc am y tro cyntaf, yn ogystal ag oedolion. Fe’i gelwir bellach yn National strategy for autistic children, young people and adults: 2021 to 2026’[56]. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pobl awtistig yn cael y cymorth cywir, gan gynnwys diagnosis amserol, o’r blynyddoedd cynnar a thrwy gydol eu bywydau. Ym mis Mawrth 2019, lansiodd Llywodraeth y DU Gais am Dystiolaeth genedlaethol[57] i lywio’r gwaith o ddatblygu’r strategaeth, a ddaeth i ben

---

53 https://llyw.cymru/mae-casineb-yn-brifo-cymru

54 https://www.gov.uk/government/publications/think-autism-an-update-to-the-government-adult-autism-strategy

55 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2009/15/contents

56 https://www.gov.uk/government/publications/national-strategy-for-autistic-children-young-people-and-adults-2021-to-2026

57 https://www.gov.uk/government/consultations/review-of-the-national-autism-strategy-think-autism-call-for-evidence

ar 16 Mai 2019 ac a gafodd oddeutu 2,700 o ymatebion.

151. Penodwyd Hyrwyddwyr Anabledd Gweinidogol yn haf 2020, ar gais y Prif Weinidog, i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni Strategaeth Genedlaethol Anabledd. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd ac fe'u cadeirir gan y Gweinidog dros Bobl Anabl. Mae eu nodau'n cynnwys:

- cyfrannu at y broses o ddatblygu a chyflawni'r strategaeth, gydag arweiniad personol ac ymrwymiad i gefnogi pobl anabl yn eu hadrannau
- sicrhau bod cynnwys pobl anabl yn flaenoriaeth yn eu hadran a bod eu swyddogion yn gweithio gyda'r Uned Anabledd ac ar draws y llywodraeth i wella bywydau pobl anabl

152. Ym mis Mehefin 2020, creodd Gweinidogion yr Alban y Bwrdd Cynghori ar Adnewyddu Cymdeithasol, gyda'r dasg o sicrhau bod lleihau tlodi ac anfantais, ymwreiddio dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol a hybu cydraddoldeb yn ganolog i'r broses o ailadeiladu yn sgil y pandemig. Roedd y bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Sefydliadau Pobl Anabl a gweithiodd i sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu clywed yn uniongyrchol drwy gydol y broses ymgysylltu a'u bod nhw'n cael eu cynrychioli yn y cynigion terfynol. Cyhoeddodd gweinidogion yr Alban ymateb cychwynnol i'r adroddiad ar 23 Mawrth 2021. Bydd Gweinidogion Llywodraeth yr Alban yn ystyried yr adroddiad terfynol, annibynnol yn llawn.

153. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru Ymrwymiad COVID-19 ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad o bron i £40 miliwn i bobl dros 16 oed yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu cael cyngor a chymorth i ddod o hyd i waith, mynd ar drywydd hunangyflogaeth neu ddod o hyd i le mewn addysg neu hyfforddiant.

154. Mae'n cynnwys prosiect peilot 12 mis gyda rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl sy'n bobl anabl eu hunain, ac sydd wedi cael profiad bywyd o'r rhwystrau sy'n wynebu cael gwaith. Maent yn gweithio gyda chyflogwyr a Busnes Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael.

155. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu ar gyfer 2017 i 2021: 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl'[58]. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018[59] sy'n weddill yn cymryd ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau ac fel sy'n ofynnol gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[60], mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021[61] cysylltiedig wedi ei ddatblygu gan weinidogion Cymru, gan roi sylw dyledus i ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol a gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag

---

58 https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl
59 https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/enacted
60 https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents
61
https://llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol

Anableddau.

**Argymhelliad 114j**

**Sefydlu dull a system o ddangosyddion sy'n seiliedig ar hawliau dynol i fonitro'n barhaol effaith y gwahanol bolisïau a rhaglenni sy'n ymwneud â mynediad a mwynhad pobl ag anableddau o ran yr hawl i gael amddiffyniad cymdeithasol a safon byw ddigonol, yr hawl i fyw'n annibynnol ac i gael eu cynnwys yn y gymuned, a'r hawl i weithio, mewn ymgynghoriad agos â phobl sydd ag anableddau a'u sefydliadau cynrychioliadol ym mhob rhanbarth a gwlad sy'n cydymffurfio â'r Wladwriaeth sy'n Barti.**

156. Corff monitro a gorfodi annibynnol y DU mewn cysylltiad â Deddf Cydraddoldeb 2010 yw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae ganddo bwerau gorfodi i orfodi cydymffurfedd â'r ddeddf, gan gynnwys y darpariaethau gwahaniaethu ar sail anabledd a hygyrchedd, ac i herio sefydliadau pan fo angen gwneud hynny. Os yw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn amau bod corff cyhoeddus yn torri'r darpariaethau gwahaniaethu, gall gynnal ymchwiliad a chymryd camau i sicrhau bod y sefydliad yn osgoi parhau â'r toriad hwnnw neu ei ailadrodd.

157. Nod y llywodraeth yw gweld miliwn yn fwy o bobl anabl mewn cyflogaeth rhwng 2017 a 2027 yn 'fesur canlyniadau'. Mae'n adlewyrchu'r gwelliannau yn y byd go iawn y mae llywodraeth y DU yn dymuno eu gweld. Mae ffactorau allanol megis maint y boblogaeth anabl sylfaenol a pherfformiad cyffredinol y farchnad lafur yn effeithio arnynt. Roedd Papur Gorchymyn 'Gwella Bywydau: Dyfodol Gwaith, Iechyd ac Anabledd' 2017 yn cydnabod y ffactorau hyn yn llawn. Felly, ymrwymodd i gyhoeddiad ystadegol blynyddol a fyddai'n monitro tueddiadau mewn anabledd a chyflogaeth, gan gynnwys symudiadau i mewn ac allan o waith. Cyhoeddwyd hwn am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2020 a disgwylir iddo gael ei ddiweddaru yn ddiweddarach yn 2021.

158. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn cyhoeddi ystadegau'n annibynnol ar ganlyniadau i bobl anabl ar draws meysydd eraill bywyd, megis addysg, cyfranogiad cymdeithasol, tai, llesiant, unigrwydd a throseddu.

159. Bydd y Bil Iechyd a Gofal a gyhoeddwyd ar 6 Gorffennaf 2021[62] yn cyflwyno dyletswydd newydd i'r Comisiwn Ansawdd Gofal asesu'r modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn cefnogi ymgyrch y llywodraeth i wella canlyniadau ledled Lloegr. Pan fydd asesiad y Comisiwn Ansawdd Gofal yn canfod methiant sylweddol, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu i sicrhau gwelliant. Byddai unrhyw gamau gweithredu yn gymesur â'r materion a nodwyd.

160. Cyhoeddodd National Taskforce for Human Rights Leadership ei

[62] https://www.gov.uk/government/news/health-and-care-bill-introduced-to-parliament

argymhellion ym mis Mawrth 2021[63] ar gyfer fframwaith hawliau dynol newydd ar gyfer yr Alban. Mae'r adroddiad yn gwneud 30 o argymhellion sy'n ymwneud â'r fframwaith arfaethedig, gan gynnwys ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Bydd hyn yn rhoi mwy o ysgogiad i gyrff cyhoeddus gael gwared ar rwystrau sy'n codi'n aml i bobl anabl wrth iddynt wireddu eu hawliau dynol, megis cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau.

161. Mewn ymateb i bandemig COVID-19, sefydlwyd grŵp llywio a gomisiynwyd gan Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl Llywodraeth Cymru i ystyried ac adrodd ar effaith COVID-19 ar bobl anabl yng Nghymru. Roedd y grŵp llywio yn cynnwys detholiad o bobl anabl â phrofiadau bywyd yn cynrychioli Sefydliadau Pobl Anabl ac elusennau o bob cwr o Gymru.

162. Cyflwynwyd adroddiad i Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad y bydd hyn wedyn yn llywio'r broses o adnewyddu fframwaith a chynllun gweithredu "Gweithredu ar Anabledd", gan ystyried effeithiau COVID-19.

[63] https://www.gov.scot/publications/national-taskforce-human-rights-leadership-report/